# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar ansawdd addysg yn

## Ysgol Dinas Mawddwy
**Dinas Mawddwy,**
**Machynlleth,**
**Gwynedd,**
**SY20 9LN**

**Rhif yr ysgol: 6612187**

**Dyddiad yr arolygiad: 10/05/10**

**gan**

**Gareth Wyn Roberts**
**17166**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/07/10**

**O dan rif contract Estyn: 1119809**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

94. Mae'r modd y mae cwricwlwm yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion a'r plant yn gryfder arall. Mae gan yr ysgol amcanion clir o ran datblygiad ysbrydol, moesol cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

95. Cydymffurfia'r ysgol â'r gofyn statudol i gynnal addoliad ar y cyd dyddiol. Mae'r staff yn hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion yn rhagorol drwy wersi addysg grefyddol a thrwy addoliadau ar y cyd bywiog a diddorol. Gwna'r disgyblion ac aelodau o'r gymuned gyfraniad effeithiol i'r addoli. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda'r rheithor a'r gweinidog lleol. Cynhaliant wasanaethau yn yr ysgol ac mae'r ysgol yn ymweld â'r eglwys a'r capel lleol i gymryd rhan mewn gwasanaethau neu fel rhan o weithgareddau'r cwricwlwm.

## Addysg grefyddol

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

222. Mae llai na phum disgybl yng nghyfnod allweddol 1 ac felly, cyfeiria'r nodweddion isod at y ddarpariaeth yn hytrach na'r safonau pynciol. Mae sylwadau cyfnod allweddol 2 yn cyfeirio at y safonau.

### Cyfnod allweddol 1

**Nodweddion da**

223. Mae'r ddarpariaeth wedi sicrhau bod y disgyblion yn :

meddu ar wybodaeth dda am addoliad a myfyrdod yn dilyn ymweliad ag eglwys leol Mallwyd;

gyfarwydd â defodau a dathliadau, boed yn rhai teuluol, megis dathlu penblwydd neu rai crefyddol, megis bedydd plentyn;

gyfarwydd â gwyliau Cristnogol megis y Nadolig a'r Pasg yn ogystal â rhai dathliadau mewn crefyddau eraill, megis Diwali, ac yn deall eu harwyddocâd crefyddol;

gyfarwydd â nifer o storiau, damhegion a gwyrthiau Beiblaidd ac yn deall eu harwyddocad crefyddol a chymdeithasol, ac yn

deall eu rôl fel aelod o gymdeithas ac yn gwerthfawrogi sut i barchu ac i drin eraill.

### Cyfnod allweddol 2

**Nodweddion da**

224. Mae gan y disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda am ddefodau, gwyliau ac arferion Cristnogol; maent hefyd yn deall hanfod Cristnogaeth, sef arwyddocâd yr atgyfodiad i'r Cristion.

225. Maent yn dechrau trafod y 'cwestiynau mawr', megis heddwch, ac yn datblygu eu syniadau ysbydol, moesol a chymdeithasol eu hunain yn dda.

226. Mae'r disgyblion yn deall ystyr addoliad ac maent yn creu gweddïau personol o ansawdd da.

227. Maent yn gwybod am lyfrau sanctaidd a symbolau nifer o grefyddau gwahanol ac yn gwybod am rai defodau, gwyliau a chredoau crefyddau yn ogystal â Christnogaeth.

228. Mae’r disgyblion yn deall eu cyfrifoldeb tuag at y greadigaeth sydd i’w gweld ym myd natur ac yn yr amgylchfyd pell ac agos.

229. Maent yn deall pwysigrwydd rheolau a, chydag ychydig iawn o eithriadau, sut i barchu eraill yn ymarferol mewn cymdeithas.

**Diffygion**

230. Nid oes diffygion pwysig.